WG35. S. 105

# LLINELLAU COFFADWRIAETHOL,

AM Y DIWEDDAR

# BARCH. JOHN JONES,

## WREXHAM,

(ŵyr i'r hybarch Robert Jones, Rhos Lan,)

**Yr hwn a fu farw Medi 3ydd, 1856,**

YN 48 MLWYDD OED.

**GWNAED EF YN BREGETHWR YN 1829;**

Dewiswyd ef yn Ysgrifenydd Cyfarfod Misol Sir Fflint yn 1838, ac ordeinwyd ef i weinyddu holl ragorfreintiau y weinidogaeth yn 1842.

———o———

Mae yn debyg nas gellir rhestru y brawd hwn yn mhlith *prif lenorion* ei oes—ni welwyd ei bwyso yn nghlorian "Tafol y Beirdd;" eto yr oedd y dyddordeb a gymerai yn y Feibl Gymdeithas, ar Cenhadaethau Cartrefol a Thramor—ei sylw caruaidd o ieuenctyd yr eglwysi—ei frwdfrydedd dros lwyddiant ein hysgolion a'n hathrofeydd, yn nghyd a thanbeidrwydd ei ddoniau, a'i ddifrifoldeb gweinidogaethol, yn peri i ni edrych arno fel un o FLAENORIAID mwyaf defnyddiol ei oes yn mhlith Trefnyddion Calfinaidd Cymru.

Syrthiodd trwy y darfodedigaeth yn nghanol ei ddyddiau a'i ddefnyddioldeb, a diameu y bydd ei goffadwriaeth yn fendigedig, am ganrifoedd lawer, mewn cysylltiad a "Methodistiaeth Cymru."

Medi 9fed ydoedd dydd mawr ei gladdedigaeth. Yn ol rhagbenodiad Mr. Jones ei hun gweddiodd y PARCH. WILLIAM ROBERTS, Amlwch, cyn cychwyn, yn tŷ. Yna aed yn orymdaith i gapel *Abbot Street*, pryd y darllenodd ac a gweddiodd y PARCH. DANIEL ROBERTS, Lodge, ac annerchwyd y dorf fawr gan y Parchedigion ROGER EDWARDS, Wyddgrug; LEWIS EDWARDS, D. D., Bala; WILLIAM PIERCE, Rhosesmor; JOHN DAVIES, Nerquis; THOMAS JONES,

X205311O4X

CEFN Y GADER; a therfynodd y PARCH. RICHARD EDWARDS, LLANGOLLEN, trwy weddi. Yna cychwynodd yr orymdaith, yr hon a rifai oddeutu 600 tua mynwent Rhosddu, hên lanerch a fythol enwogwyd gan lwch llawer o "Saint y Goruchaf," ac yn eu plith yr enwog PHILIP HENRY, MORGAN LLWYD, WALTER CARADOC, &c. Ar ol gosod yr arch yn y gell a ddarparesid, annerchwyd y dorf yn Gymraeg gan y PARCH. WILLIAM ROBERTS AMLWCH, ac yn Saesoneg gan y PARCH. JONATHAN DAVIES, BOWLING BANK. Traddodwyd yr "Anerchiad angladdol" i gynulleidfa capel *Abbot Street*, y sabboth cyntaf ar ol ei gladdedigaeth, gan y PARCH. HENRY REES, a diweddwyd y gwasanaeth gyda'r penill.—

"Mae'n brawd wedi gorphen ei daith,
A'i lafur a'i waith yr un wedd."

---

Pan ydoedd yn llencyn cochruddiog,
Yn dechreu boreuddydd ei oes,
Aeth swynion ein Sïon a'i galon,
Yn serchog at achos y groes;
Aur oriau hamddenol ieuenctyd,
A dreuliodd ar gyfer ei daith,
A'r yspryd eneiniodd ei enaid,
Ag yspryd o yspryd y gwaith.

Er cymaint cynygion duw mammon,
A dengar gyfeillach y byd;
Ni lwyddodd un tegan er tynu
Gwir grefydd a'i gwreiddyn o'i fryd:
Ein Harwr adawodd bob gorchwyl,
Dadglymodd bob rhwymyn yn rhydd;
Ymrestrodd yn filwr teyrngarol,
Ymladdodd tra parodd ei ddydd.

Mor effro a llidiog caed uffern,
Er lluddias hyflwyddiant ei ddawn,
Ond ffaglwyd holl faglau'r tywyllwch,
Gwnaed coelcerth wrth drostan yr Iawn.

Yn nghysgod gweddiau yr eglwys
Addefai fod sylfaen ei swyn;
Yn'r eglwys disgleiriai fel angel,
Trwy eiriau bach, tyner a mwyn.

Gwersyllodd ar aelgerth Golgotha,
O seiniau erch Sinai fe ddaeth
I fynydd Calfaria cyfeiriodd,
Y mynydd lle prynwyd y caeth:
Ei ddullwedd a doddai y creigiau,
Chwilfriwient dan effaith ei ddawn,
Er cymaint caledwch calonau,
Eneiniwyd ein *Ioan* yn iawn.

Trwy'i ddoniau fe ddenodd i'r fyddin,
Rai'n addurn i'r eglwys a droes,
Ei enw yn anwyl a enwir
Yn rhestr enwogion yr oes;
Eglurai ddyfn bynciau trefn cadw,
Credöau a chwiliai bob darn,
Nes cododd yn mynwes yr eglwys,
Yn athraw o brofiad a barn.

Un sill o'i fwyn eiriau drydanai
Trwy gelloedd tywyllaf y fron;
A'i falmaidd gyfferi gyffyrddodd,
Nes concro pob cancr yn hon:
Mor flasus oedd gwleddoedd "Cymundeb"
Pan torai ond tamaid i'r oes,
Ces damaid o damaid yr angel,
Gan *Ioan* offeiriad y groes.

Pan fyddai dan wlith yn pregethu,
Am ddarpar yr arfaeth a'i stôr,
Gwyn gwmwl gordanllyd gorfoledd,
Ymgasglai'wrth orsedd yr Ior,
A'r dwyfol orfoledd orlifodd,
Aeth daear a nefoedd yn un;
Gall *Ioan* mewn mynyd ei brofi,
Bu ganwaith mewn llewyg ei hun.

Ei ddagrau a wlychent yr allor,
Gwahoddent i gysgod y graig,
Tra'n dyner cynygiai y darian
Rhag saethau uffernol y ddraig:
Bu yspryd y farn yn ei ferwi,
Siaradodd nes synodd yr oes,
Dinystriai au obaith y bobl,
Ddirmygent faddeuant y groes.

'Roedd llafur a lludded ei feddwl
Yn ymdrin ag achos y nef,
Yn ormod i'w natur ei gario,
Er bod ei athrylith yn gref:
Derbyniodd, do lu o rybuddion,
Yn dyner o ddwylaw ei Dad;
Am iddo'n ddioedi ddod adre'
A gadael ei swydd yn y gâd.

Ein gwron a gafodd y goron,
Esgynodd mewn urddas a bri;
Daeth seindorf seraphaidd i'w gyrchu,
Y mynyd y croesodd y lli:
Yr enwog gadfridog gyrhaeddodd
Mewn gosgordd yn nghoncwest yr Oen,
I gartref tragwyddol dedwyddwch,
Yn berffaith heb bechod na phoen.

*Brymbo.* H. JUDD.

*H. Jones, Argraffydd, Llangollen.*